OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 9

## GRANT MYFYRIWR ANABL

**Amodau cymhwyso i gael grant myfyriwr anabl**

**62.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant myfyriwr anabl mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o'r cwrs presennol—

(a) os oes gan y myfyriwr anabledd, a

(b) os nad yw'r myfyriwr yn dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r eithriadau ym mharagraff (2).

(2) Yr eithriadau yw—

*Eithriad 1*

Mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor, oni bai—

(a) bod y cwrs presennol yn gwrs rhan-amser, a

(b) bod y myfyriwr cymwys yn mynd i'r carchar neu'n cael ei ryddhau o'r carchar yn y flwyddyn academaidd o dan sylw.

*Eithriad 2*

Mae'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys Categori 6 yn rhinwedd paragraff 6(1) o Atodlen 2 yn unig ac nid yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau eraill o fyfyrwyr cymwys a bennir yn yr Atodlen honno.

*Eithriad 3*

Mae'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser ac mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn y mae'r myfyriwr yn gymwys i wneud cais mewn cysylltiad â hi am—

(a) bwrsari gofal iechyd, neu

(b) lwfans gofal iechyd yr Alban,

a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio).

*Eithriad 4*

Mae'r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â blwyddyn academaidd o gwrs mynediad graddedig carlam, ac eithrio blwyddyn gyntaf y cwrs.

*Eithriad 5*

Mae'r cwrs presennol yn gwrs dysgu o bell ac nid yw'r myfyriwr yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Ond nid yw'r Eithriad hwn yn gymwys pan—

(a) bo'r myfyriwr ("M") neu berthynas agos i M yn aelod o'r lluoedd arfog,

(b) na fo M yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf, ac

(c) na fo M yng Nghymru ar y diwrnod hwnnw oherwydd bod M neu’r berthynas agos yn gwasanaethu fel aelod o’r lluoedd arfog y tu allan i Gymru.

*Eithriad 6*

Mae’r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â blwyddyn academaidd o gwrs rhyngosod pan fo swm cyfanredol y cyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos (oni bai ei bod yn flwyddyn y mae rheoliad 44(2) yn gymwys iddi).